




SENEDD!



Adroddiad y Swyddogion Bayanda Vundamina

**Y Senedd
28/10/2024**



SENEDD!

Crynodeb:

Braf yw gweld myfyrwyr hen a newydd yn cyrraedd Aberystwyth a'u bwrw eu hun i'r flwyddyn academaidd newydd gyda chymaint o frwdfrydedd. Roedd Wythnos y Croeso yn llwyddiant tu hwnt, gyda nifer fawr yn mynychu ein digwyddiadau nos a'n digwyddiadau Cwrdd a Chyfarch. Rydym yn edrych ymlaen at lond blwyddyn o ddigwyddiadau hwyliog ac ymgyrchoedd pwysig a fydd yn taro tant gyda chymuned y myfyrwyr.

Wythnos y Croeso

Mi oedd Wythnos y Croeso yn llwyddiant ysgubol i ni! Cafodd myfyrwyr a staff amser anhygoel, a phaffordd well o lansio bywyd prifysgol. Hoffem ddiolch yn dalpiâu i dîm y Cyfleoedd a Chyfathrebu am eu holl waith caled i weld Wythnos y Croeso yn llwyddo.

Lansiwyd yr wythnos gyda'n cwis y swyddogion, ac roeddem ni wrth ein boddau o weld cymaint o fyfyrwyr yn cymryd rhan. Roedd cymaint o hwyl i'w gael, yn enwedig pan welsom ni wynebau ein swyddogion ar bosterâu ffilm enwog. Trwy gydol yr wythnos, roeddem yn hyrwyddo amryw o ddigwyddiadau a chwrrd â myfyrwyr yn Ffair y Glas.

Fe drefnom ni hefyd sawl digwyddiad Cwrdd a Chyfarch i fyfyrwyr sydd yn aml yn cael eu gwthio i'r ymylon mewn addysg uwch ee myfyrwyr DALIE, LDHTC+, Traws, Menywod, Rhyngwladol, Ôl-raddedigion, Hÿb, Annibynnol, Cymraeg eu Hiaith, Anabl a Niwrowahanol. Roedd y digwyddiadau hwn yn boblogaidd iawn, ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr holl swyddogion a staff yr Undeb a wnaeth y llwyddiant hwn yn bosib.

Yn ein mis cyntaf, bu ein swyddogion yn ffocysu ar ddod yn gyfarwydd â'u rolau a chynllunio at y flwyddyn o'u blaenau. Cawsom gyfle arbennig i fynychu ddigwyddiad hyfforddi yng Nghaerdydd gydag undeb myfyrwyr Cymru eraill. Roedd o fudd mawr i ni ddeall ein hamcanion at y flwyddyn ac yn cryfhau ysbryd ein tîm ni a oedd yn hollbwysig wrth drefnu Wythnos y Croeso.

Rydym hefyd yn rhan o wahanol bwyllgorau a byrddau y Brifysgol fel y Cyngor neu'r Senedd i sicrhau bod eich lleisiau fel myfyrwyr yn cael eu clywed. Mae bod yn rhan yn y pwyllgorau hyn wedi bod yn ddifyr iawn!

Staff Newydd/Newid Staff

Rydym hefyd wedi croesawu dau aelod staff newydd eleni! Hoffwn i roi croeso i Emily sydd wedi dechrau fel ein Cydlynnydd Marchnata dros yr haf a Cat sef ein Cydlynnydd Cymdeithasau newydd. Mae'r ddwy am fod yn anhygoel ac rydym wrth ein boddau o'u cael nhw.

Rydym hefyd wedi gweld newid staff, sef Tom, a oedd gynt ein cydlynnydd cymdeithasau a gwirfoddoli, ond sydd bellach yn gyfrifol am Gwirfoddoli yn unig fel ein Cydlynnydd Gwirfoddoli.



Bayanda - Llywydd

Rwy wedi bod wrthi eleni wrth fwrw at fy amcanion, gan lansio ymgyrchoedd newydd, a chynllunio ychydig o ddiwyddiadau cyffrous! Dyma fy blaenoriaethau uchaf ar gyfer y flwyddyn:

Sicrhau bod myfyrwyr rhyngwladol yn gallu llywio eu profiad eu hunain.
Parhau i symud ymlaen gyda'm hymgyrch gwrth-hiliol

Rwy'n angerddol iawn am sicrhau y gall myfyrwyr rhyngwladol ddweud eu dweud ar eu hamser yma. Rwy wedi sefydlu bwrdd cyngori myfyrwyr rhyngwladol, sy'n ffordd wych i fyfyrwyr rannu eu meddyliau a'u cyngor gyda'r undeb a'r brifysgol ynghlŷn ag unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu. Cyffrous iawn yw gweld potensial myfyrwyr rhyngwladol i gael argraff ystyrlon ar eu proses cyflwyno nesaf - bydd yn anhygoel gweld beth ellith y grŵp hwn ei gyflawni!

Wrth sôn yr ymgyrch gwrth-hiliol, rydym wrthi'n cwblhau ein cais am siarter cydraddoldeb hiliol, ac rwy'n edrych ymlaen at gynnal mwy o weithdai trwy gydol y flwyddyn i helpu addysgu pawb ar sut mae bod yn wrth-hiliol mewn modd gweithgar.

Ar ben hyn oll, rwy'n parhau i drafod gyda'r brifysgol ynghylch sicrhau bod y profiad myfyriwr yn aros yn un cryf er gwaethaf yr amser ansicr mewn addysg uwch. Cymaint i edrych ymlaen ato!

Elain Gwynedd - Llywydd UMCA a Swyddog Diwylliant Cymru

Mae wedi bod yn gyfnod prysur i Elain fel Llywydd UMCA a Swyddog Diwylliant Cymru. Dros yr haf, mynychodd hyfforddiant i baratoi at y flwyddyn i ddod gyda'i chyd-swyddogion, yn ogystal ag amryw o gyfarfodydd pwysig y brifysgol. Roedd Cyfnod y Croeso yn llwyddiant tu hwnt i Elain wrth iddi groesawu 198 o fyfyrwyr i Bantycelyn yn ystod Penwythnos y Croeso gyda help ei phwyllgor, cymerodd ran yn y Trafodaethau Croeso ar y Sadwrn cyntaf, mynychu trafodaethau adrannau i fyfyrwyr newydd trwy gydol yr wythnos, a threfnu digwyddiad bob nos o Wythnos y Croeso i siaradwyr Cymraeg a Dysgwyr gydag UMCA, gan gynnwys y noson Caraoci, Cwis Mawreddog UMCA, y Noson Groeso, heb anghofio Sŵn cyntaf y flwyddyn a gynhaliwyd yn y Cŵps gyda Buddug a Fleur de Lys yn perfformio. Trefnodd Elain Taith flynyddol UMCA i Dregaron ar ôl Wythnos y Croeso a chynnal Cyfarfod Cyffredinol cyntaf UMCA i roi i fyfyrwyr y diweddaraf ar ei blaenoriaethau a pha ddiwyddiadau sydd ar y gweill ganddi.

Fe wnaethom ddathlu Diwrnod Shwmae/Su'mae yn yr Undeb gan chwarae Cerddoriaeth Gymraeg ym mar y Cwtsh a rhannu fideo o'r staff a rhai clybiau a chymdeithasau yn rhannu eu hoff eiriau Cymraeg.

Ar hyn o bryd, mae Elain yng nghanol trefnu y Ddawns Ryng-golegol a gynhelir yma yn Aberystwyth fis Tachwedd bob blwyddyn. Hon yw un o uchafbwyntiau yng nghalendr digwyddiadau Undebau Cymraeg, lle bydd myfyrwyr sy'n aelodau undebau Cymraeg ar draws y DU yn heidio am Aberystwyth am lond penwythnos o ddiwyddiadau, megis noson Caraoci, twrnamaint pêl-droed, a'r Ddawns ei hun gyda rhai o fandiau enwocaf y sîn roc Cymraeg. Yn serenni eleni mae Mynadd, Pys Melyn, Y Cledrau, ac Yws Gwynedd!



SENEDD!

Bydd UMCA hefyd yn cynnal digwyddiad pwysig arall yn Aberystwyth eleni, yr Eisteddfod Ryng-golegol lle daw Undebau a Chymdeithasau Cymraeg o bob cwr o'r DU ynghyd i fynd yn benben â'i gilydd mewn chwaraeon, dawnsio, canu ac ysgrifennu ar gyfer y Tarian Rhyng-gol. Llynedd, enillodd UMCA Eisteddfod am y tro cyntaf ers 2015, ac mae Elain yn gobeithio cipio'r tarian a buddugoliaeth unwaith eto fis Mawrth 2025.

I gloi, dyma flaenoriaethau Elain ar gyfer y flwyddyn academaidd 24/25:

Gwella Darpariaeth o'r Gymraeg mewn Modiwlau.

Newid enw UMABerSU i Undeb Aberystwyth.

Dadlau dros Wasanaethau Golchi Dillad am ddim i Breswylwyr Llawn Amser.

Pwyso ar i gael gwared ar Starbucks a chyflwyno brand coffi mwy cynaliadwy lleol yn ei le.

Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg i fyfyrwyr.

Cynnal a threfnu Eisteddfod Ryng-gol llwyddiannus yn Aberystwyth.

Tiff - Swyddog Cyfleoedd

Mae Tiff wedi dewis ei blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar bolisiau presennol Undeb Aber ac adborth myfyrwyr. Dyma nhw isod:

- Gwella cyfathrebu rhywng y Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr a'r Myfyrwyr.
- Sicrhau bod gan fyfyrwyr y cyfleusterau chwaraeon sydd eu hagen arnynt i'w galluogi i gystadlu.

Yn ddiweddar, cwblhaodd Tiff bolisi i ddod â'n helusen Codi a Rhoddi yn ôl Cyflwynodd myfyrwyr syniadau, a dewisodd ein swyddogion bedwar yn y pendraw, a'r myfyrwyr a bleidleisiodd yn ystod Wythnos y Croeso. St John's Ambulance Cymru oedd yr elusen a ddewiswyd. Daeth 'Rhowch Gynnig Arni' yn ei ôl eto eleni. Cymerodd cymaint o grwpiau newydd ran eleni, braf oedd gweld cynifer o fyfyrwyr yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd.

Mae am ail-lansio 'Tiff yn Trio' ond 'Trio gyda Tiff' hefyd. Aiff hi ati i roi cynnig ar bob clwb chwaraeon a chymdeithas a fydd yn gyfle i hyrwyddo Grwpiau Myfyrwyr yn fwy. Os oes unigolyn sydd eisiau ymaelodi â grŵp ond yn rhy nerfus i fynd ar eu pen eu hun, gallant gysylltu â, ac fe ddaw gyda nhw.

Ar hyn o bryd, mae'n cynllunio ac yn edrych ymlaen at amryw o ddigwyddiadau yn y tymor cyntaf, Sialens Aber a Gŵyl y Celfyddydau er enghraifft.

Mae Tiff wedi dewis ei blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar bolisiau presennol Undeb Aber ac adborth myfyrwyr. Dyma nhw isod:

- Gwella cyfathrebu rhwng y Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr a'r Myfyrwyr.
- Sicrhau bod gan fyfyrwyr y cyfleusterau chwaraeon sydd eu hagen arnynt i'w galluogi i gystadlu.

Yn ddiweddar, cwblhaodd Tiff bolisi i ddod â'n helusen Codi a Rhoddi yn ôl. Cyflwynodd myfyrwyr syniadau, a dewisodd ein swyddogion bedwar yn y pendraw, a'r myfyrwyr a bleidleisiodd yn ystod Wythnos y Croeso. St John's Ambulance Cymru oedd yr elusen a ddewiswyd. Daeth 'Rhowch Gynnig Arni' yn ei ôl eto eleni. Cymerodd cymaint o grwpiau newydd ran eleni, braf oedd gweld cynifer o fyfyrwyr yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd.



SENEDD!

Mae am ail-lansio 'Tiff yn Trio' ond 'Trio gyda Tiff' hefyd. Aiff hi ati i roi cynnig ar bob clwb chwaraeon a chymdeithas a fydd yn gyfle i hyrwyddo Grwpiau Myfyrwyr yn fwy. Os oes unigolyn sydd eisiau ymaelodi â grŵp ond yn rhy nerfus i fynd ar eu pen eu hun, gallant gysylltu â, ac fe ddaw gyda nhw.

Ar hyn o bryd, mae'n cynllunio ac yn edrych ymlaen at amryw o ddigwyddiadau yn y tymor cyntaf, Sialens Aber a Gŵyl y Celfyddydau er enghraifft.

Will Parker - Materion Academaidd

Ers cymryd rôl y Swyddog Materion Academaidd fis Gorffennaf, cwblhaodd Will hyfforddiant trwy gydol y mis i'w baratoi i ddechreuad llwyddiannus ym mis Awst. Fis Awst, bydd Will yn ffocysu yn bennaf ar gynllunio at y flwyddyn academaidd o'i flaen, gan gynnwys datblygu ei "Siarter Niwroamrywiol" a gwella ei ddealltwriaeth o faterion y Brifysgol a'r Undeb. Yn ystod mis Medi, bu Will yn cydweithio gyda sawl adran academaidd i roi gwybod am yr amryw o weithgareddau Undeb a'r system Cynrychiolaeth Academaidd i ddod. Trwy gydol Cyfnod y Croeso, ymgysylltodd Wil â nifer o grwpiau myfyrwyr, hwyluso sawl digwyddiad cwrdd a chyfarch, a helpu myfyrwyr niwroamrywiol i ymgartrefu.

Bydd Will yn gweithio ar dair phrif blaenoriaeth yn ogystal â chynrychioli myfyrwyr ar amryw o wahanol fyrddau/pwyllgorau.

Mae prif ffocws Wil ar wella'r profiad academaidd i fyfyrwyr niwroamrywiol. Ei fwriad yw i gyflawni hyn trwy ddatblygu "Siarter Niwroamrywiol" a'i roi ar waith, sydd â'r nod o hyrwyddo derbyn ymddygiad niwroamrywiol yn yr amgylchedd dysgu a gwella hygyrchedd darlithoedd a'u cynnwys. Mae disgwyl i'r fenter hon fod o fudd i fyfyrwyr niwrotypical, heb eu diagnosis, a'r rhai anymwybodol yn ogystal â'u darlithwyr, gan arwain at brofiad academaidd cyfoethocach i bawb.

Wrth ddilyn y trywydd hwn, bydd Will yn sicrhau gweithredu ar bolisi amgylchiadau arbennig, na fydd yn gofyn am dystiolaeth, ac y bydd hefyd o fudd wrth hwyluso'r polisi "Iawn i Sefyll" sydd wedi gweld cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf i wella hygyrchedd i fyfyrwyr ail-sefyll arholiadau.

Yn drydedd o'r mentrau hon, ac o ystyried pwysigrwydd yr her hon, bydd Will yn helpu cyflwyno defnydd o Ddealltwriaeth Artiffisial ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ei nod yw helpu dealltwriaeth myfyrwyr o sut i fanteisio ar Ddeallusrwydd Artiffisial o fewn y terfynau a osodir gan y Brifysgol, gan hyrwyddo hefyd ei ddefnyddio ymysg myfyrwyr a staff i godi baich eu llwyth gwaith.

Bydd Will hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Cynrychiolwyr Academaidd a'r Swyddogion Gwirfoddol perthnasol i sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed. Cefnogir hyn mewn hyfforddiant i Gynrychiolwyr Academaidd, cynadleddau, a digwyddiadau cwrdd a chyfarch.

Emily (Mo) Morgan - Swyddog Llesiant

Blaenoriaethau'r Swyddog:



SENEDD!

1. Lleihau yr amser aros ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan gymorth i fyfyrwyr.
2. Hyrwyddo'n well a chynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau llesiant.

Ers dechrau ar y rôl ddechrau Gorffennaf, mae Mo wedi cwblhau hyfforddiant Swyddogion, mynychu cyfarfodydd, sgwrsio gyda'r gwasanaethau myfyrwyr, mynychu paneli disgyblaethol, mynychu cyfarfodydd eiriolwyr cydraddoldeb, siarad gyda myfyrwyr, helpu cynnal digwyddiadau cwrdd a chyfarch, siarad yn y sgwrs groesawu ôl-raddedigion, a chynllunio a chynnal teithiau cerdded llesiant a sesiynau ymgysylltu. Yn sgil adnabod problem fawr i fyfyrwyr hynny yw nad yw 'myfyrwyr yn cael y cymorth iechyd meddwl y maent ei angen', datblygwyd ei blaenoriaeth i "leihau'r amser aros am y gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr". Ers hyn, mae Mo wedi mynychu cyfarfodydd gyda gwahanol bobl o'r gwasanaethau myfyrwyr i drafod ei blaenoriaethau a'i chynlluniau ar gyfer y flwyddyn.

Y Brifysgol:

Dros yr had, mae Mo wedi cwblhau ymchwil dros y we i adnabod 'enghreifftiau o lwyddiant' mewn prifysgolion/undebau myfyrwyr/gwasanaethau iechyd meddwl eraill. Trefnodd gyfarfodydd gyda phennaeth y Gwasanaethau Myfyrwyr i drafod canfyddiadau yr ymchwil ac o hyn mae Mo bellach mewn cyswllt â gwasanaethau myfyrwyr Prifysgol Reading (prifysgol sy'n gweld sgoriau uchel iawn o ran adborth myfyrwyr ar gymorth).

Undeb:

Mae Mo wedi treulio amser yn datblygu ac yn cynllunio sesiynau ymgysylltu a theithiau cerdded llesiant gan obeithio eu bod yn gyfle i fyfyrwyr ofalu am eu llesiant a chael seibiant oddi wrth yr astudio mewn amgylchedd anffurfiol. Mae Mo wedi mynychu cyfarfodydd cynllunio at waith ar gyfer yr Wythnos SHAG ac Wythnos Ymwybyddiaeth o Anhwyllder Gorfodaeth Obsesiynol. Mynychodd hyfforddiant gan Citizen's UK. Mae hefyd wedi bod mewn cyswllt â grwpiau myfyrwyr i hyrwyddo'n well yr Ymgyrch Yma a Thraws.